



Annwyl Fudd-ddeiliad,

## **Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Ardal Heddlu Gogledd Cymru) - 6 Mai 2021**

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu Gogledd Cymru, nodaf y wybodaeth allweddol a'r amserlen ar gyfer Etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ddydd Iau 6 Mai 2021.

### **Rhagarweiniad**

Yng Nghymru mae pedair ardal heddlu, De Cymru, Gwent, Dyfed Powys a Gogledd Cymru. Mae Gogledd Cymru yn cynnwys ardaloedd gweinyddol chwe Awdurdod Unedol - Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn.

Mae'r broses Etholiadau yn cael ei lywodraethu gan delerau Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Gorchymyn Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd 2012 a chanllawiau a gofynion deddfwriaethol amrywiol eraill. I'm cynorthwyo â'r dyletswyddau mae pum Swyddog Canlyniadau Lleol yn yr awdurdodau eraill, sydd hefyd yn destun canllawiau a gofynion deddfwriaethol cenedlaethol.

### **Rôl Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu**

Fel y Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, rwy'n gyfrifol am gynnal etholiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Ardal Heddlu Gogledd Cymru, ac am gysylltu gyda'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru. Rwyf hefyd yn gyfrifol am roi hysbysiad o etholiad, y weithdrefn enwebu, annog cyfranogiad, sicrhau y cydymffurfir â gofynion anerchiad etholiadol yr ymgeiswyr a'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r anerchiadau hynny, casglu cyfanswm cyfrif lleol a chyfrifo canlyniadau a datgan y canlyniad ar gyfer Ardal Heddlu Gogledd Cymru. Byddaf hefyd yn cynnig arweiniad a chynghor i ymgeiswyr ac asiantwyr ar ymddygiad yn yr etholiad, gan gynnwys rheoli unrhyw gwynion etholiadau.



## Rôl y Swyddog Canlyniadau Lleol

Mae'r Swyddogion Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am sicrhau bod yr etholiad yn cael ei weinyddu'n effeithiol yn eu hardal bleidleisio, gan gynnwys darparu gorsafoedd pleidleisio, argraffu papurau pleidleisio, penodi staff y gorsafoedd pleidleisio, cynnal

y bleidlais, rheoli'r broses bleidlais drwy'r post, gwirio a chyfrif yn eu hardaloedd pleidleisio a throsglwyddo'r cyfanswm lleol i'r Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

Os na fydd cwynion ymddygiad yn ymwneud ag ymgeiswyr a/neu asiantwyr wedi'u datrys ar lefel leol, rhoddir gwybod am hyn i mi, fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, a byddaf yn darparu cyngor.

## Etholiad Cyfunol

Yng Nghymru, bydd Etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2021 yn cael eu cyfuno gydag Etholiadau Senedd Cymru. Rwyf wedi fy mhenodi yn Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru felly byddaf yn arwain y ddau.

## Dyddiadau Allweddol

Dyddiad	Digwyddiad
Dydd Llun 22 Mawrth 2021	Hysbysiad o Etholiad
Dydd Mawrth 23 Mawrth 2021	Briffio Darpar Ymgeisydd / Asiantwyr Heddlu Gogledd Cymru
Dydd Mawrth 23 Mawrth 2021 – Dydd Iau 8 Ebrill 2021 (Rhwyng 10 am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith)	Dosbarthu papurau enwebu
Dydd Iau 8 Ebrill 2021 (erbyn hanner dydd)	Anerchiad Ymgeiswyr Awgrymir dyddiad cau gwirfoddol o ddydd Iau 1 Ebrill.
Dydd Gwener 9 Ebrill 2021 (4pm)	Datganiad am y sawl a enwebwyd a chyhoeddi'r Hysbysiad o Bleidlais
Dydd Llun 12 Ebrill 2021	Briffio Ymgeisydd / Asiantwyr am 5.30 pm (Webex)
Dydd Llun 19 Ebrill 2021	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i gofrestru



Dydd Mawrth 20 Ebrill 2021 (5pm)	Dyddiad cau ar gyfer derbyn neu addasu ceisiadau pleidlais drwy'r post
Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021 (5pm)	Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau dirprwy
Dydd Iau 6 Mai 2021	Diwrnod y Bleidlais
Dydd Gwener 7 Mai 2021 (Cychwyn am 9.00 am)	Dilysu ar gyfer Senedd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Dydd Sul 9 Mai 2021 (Cychwyn am 9.00 am)	Cyfrif Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yna cyhoeddi'r canlyniadau

Mae amserlen gyfunol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Senedd Cymru ynghlwm.

<https://www.electoralcommission.org.uk/sites/default/files/2020-10/Senedd%20PCC%20Timetable.doc>

## Ymgeiswyr ac Asiantwyr

Mae gwefan bwrpasol ar gael, yn rhoi gwybodaeth hanfodol i Ymgeiswyr ac Asiantwyr, a bydd yn cael ei diweddarau maes o law gyda ffurflenni a ellir eu lawrlwytho (gan gynnwys y pecyn enwebiad) a diweddariadau PARO. Ewch i:

[www.flintshire.gov.uk/pccelectionnorthwales](http://www.flintshire.gov.uk/pccelectionnorthwales)

Ar ddydd Mawrth 23 Mawrth 2021 am 2.00 pm, bydd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu Gogledd Cymru a mi yn cynnal sesiwn friffio Ymgeiswyr ac Asiantwyr ac yn rhoi trosolwg o rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Bydd y sesiwn friffio yn darparu gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr posibl a'u hasiantwyr, gan gynnwys y broses enwebu, gwybodaeth bleidleisio, y broses ddilysu a chyfrif, gwariant ymgeiswyr a threuliau etholiad.

Bydd sesiwn friffio arall i Ymgeiswyr ac Asiantwyr yn cael ei chynnal ddydd Llun 12 Ebrill 2021 am 5.30pm. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn fuan.

## Mesurau Covid-19

Bydd nifer o fesurau yn cael eu rhoi mewn lle a fydd yn gwneud i'r etholiad hwn edrych a theimlo yn wahanol. Gellir disgwyl gweld nifer o'r newidiadau rydych wedi dod i arfer â hwy dros y misoedd diwethaf mewn banciau, siopau a mannau dan do eraill.



Mewn gorsafoedd pleidleisio a'r canolfannau dilysu a chyfrif disgwylir i unigolion ddefnyddio'r hylif diheintio dwylo a ddarperir wrth gyrraedd a gadael a gwisgo gorchudd wyneb bob amser (oni bai eich bod wedi eich eithrio).

Gellir rhoi mesurau corfforol/cadw pellter cymdeithasol eraill mewn lle megis systemau unffordd, rheoli ciwiau a defnyddio sgriniau diogelwch clir i sicrhau diogelwch yr holl fudd-ddeiliaid sy'n rhan o'r broses etholiad.

### **Dolenni a chysylltiadau defnyddiol**

- Gwefan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Ardal Heddlu Gogledd Cymru) - [www.flintshire.gov.uk/pccelectionnorthwales](http://www.flintshire.gov.uk/pccelectionnorthwales)
- Y Comisiwn Etholiadol - <https://www.electoralcommission.org.uk/cy>
- Colin Everett - chief.executive@flintshire.gov.uk (Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu Gogledd Cymru a Swyddog Canlyniadau Lleol Sir y Fflint)
- Iwan Davies – Iwan.Davies@conwy.gov.uk (Swyddog Canlyniadau Lleol Conwy)
- Judith Greenhalgh - Judith.Greenhalgh@denbighshire.gov.uk (Swyddog Canlyniadau Lleol Sir Ddinbych)
- Dilwyn Williams - [DilwynOwenWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DilwynOwenWilliams@gwynedd.llyw.cymru) (Swyddog Canlyniadau Lleol Gwynedd)
- Ian Bancroft - [ian.bancroft@wrexham.gov.uk](mailto:ian.bancroft@wrexham.gov.uk) (Swyddog Canlyniadau Lleol Wrecsam)
- Annwen Morgan - annwenmorgan2@ynysmon.gov.uk (Swyddog Canlyniadau Lleol Ynys Môn)
- Lynn Phillips - lyn.phillips@flintshire.gov.uk (Arweinydd Tîm – Etholiadau Sir y Fflint)
- Sian Williams - sian.williams@conwy.gov.uk (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Conwy)
- Gareth Evans – g.evans@denbighshire.gov.uk (Swyddog Gwasanaethau Etholiadol Sir Ddinbych)
- Raymond Harvey - raymondharvey@gwynedd.llyw.cymru (Swyddog Cofrestru Gwynedd)
- Alison Davies – Alison.Davies@wrexham.gov.uk (Swyddog Gwasanaethau Etholiadol Wrecsam)
- Haulwen Hughes – HaulwenHughes@ynysmon.gov.uk (Swyddog Gwasanaethau Etholiadol Ynys Môn)
- Stephen Hughes – Stephen.Hughes2@nthwales.pnn.police.uk (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd)



## Diwrnod y Bleidlais

Cynhelir y bleidlais **ddydd Iau, 6 Mai 2021 o 7am tan 10pm**. Bydd pob Swyddog Canlyniadau Ardal yn gyfrifol am gynnal y bleidlais a'r gorsafoddd pleidleisio yn eu hardal bleidleisio.

Bydd papurau pleidleisio yn cael eu hargraffu gyda Marc Adnabod Unigryw i bob ardal bleidleisio'r Swyddogion Canlyniadau Lleol, ynghyd â marc swyddogol a nodir gan Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu.

## Dilysu a Chyfrif

Bydd gwirio a chyfrif ar gyfer Etholiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnal mewn canolfannau cyfrif lleol ar draws ardal Gogledd Cymru gyda Chanolfan Ranbarthol yn y Neuadd Chwaraeon, Coleg Cambria, Kelsterton Road, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint. CH5 4BR ble byddaf yn datgan canlyniad terfynol yr Etholiad. Mae'r broses i'w dilyn yn gofyn am ddatganiadau lleol o'r canlyniadau ymhob ardal awdurdod, gyda chanlyniad cyffredinol i ddilyn ar gyfer Gogledd Cymru.

Bydd pob Swyddog Canlyniadau Lleol yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru yn cychwyn y dilysu am 9.00 a.m. ar ddydd Gwener 7 Mai 2021 ar gyfer etholiadau Senedd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Bydd bob Swyddog Canlyniadau Lleol yn gyfrifol am gyfathrebu'r cyfanswm gwiriad i mi. Ar ddiwedd y cam dilysu, bydd bob Swyddog Canlyniadau Lleol yn diogelu'r holl bapurau pleidleisio tan i'r cyfrif ddechrau.

Bydd y cyfrif yn dechrau am 9.00 ddydd Sul 9 Mai 2021. Rhagwelir y bydd y cyfrif yn cael ei weinyddu gan ddefnyddio system Bleidleisio Atodol ac felly os fydd un ymgeisydd yn methu a sicrhau 50% ac 1 pleidlais yn y rownd gyntaf, bydd angen ail rownd o gyfrif. O ganlyniad, mae'n anodd amcangyfrif pa mor hir fydd y broses gyfrif yn ei gymryd yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru.

Fel Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yn y Ganolfan Ranbarthol drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol i'r Swyddogion Canlyniadau Lleol drwy gydol y dilysu a chyfrif.

Gobeithiaf fod y wybodaeth uchod o gymorth i chi ac yn nodi'r cynlluniau cychwynnol ar gyfer etholiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd effeithiol ac effeithlon yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru. Os byddwch angen rhagor o wybodaeth, ewch i: [www.flintshire.gov.uk/pcelectionnorthwales](http://www.flintshire.gov.uk/pcelectionnorthwales) cysylltwch â mi (Ffôn: 01352 702101, e-bost: [chief.executive@flintshire.gov.uk](mailto:chief.executive@flintshire.gov.uk)) neu cysylltwch â Lynn Phillips, Arweinydd



Tîm, Etholiadau ar gyfer Cyngor Sir y Fflint (Ffôn: 01352 702329, e-bost: [lyn.phillips@flintshire.gov.uk](mailto:lyn.phillips@flintshire.gov.uk)).

Yn ddiffuant,

**Colin Everett**  
**Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu (Gogledd Cymru)**